# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Chwefror 2002 i'w hateb ar 26 Chwefror 2002

**R yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn);** Pa drafodaethau y mae wedi'u cael yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch sicrhau mwy o bwerau ar gyfer y Cynulliad. (OAQ15830)

2. **Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda llywodraeth y DU, y Comisiwn Ewropeaidd a rhanbarthau eraill yn Ewrop i sicrhau bod buddiannau Cymru'n cael eu diogelu ar ôl ehangu'r UE. (OAQ15840)

3. **Richard Edwards (Preseli Sir Benfro);** Fel rhan o nod y Llywodraeth i ddod â'r llywodraeth yn agosach at bobl Cymru, a yw'r Prif Weinidog yn argymell unrhyw gynlluniau i gynnal rhaglen o gyfarfodydd llawn y Cynulliad mewn rhannau eraill o'r wlad. (OAQ15843)

4. **Janice Gregory (Ogwr);** Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i hyrwyddo cynnyrch o Gymru mewn siopau manwerthu, megis archfarchnadoedd, yng Nghymru. (OAQ15845)

5. **Jonathan Morgan (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar yr effaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei gael ar godi ein proffil rhyngwladol. (OAQ15842)

6. **Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y modd y mae gweithio traws-bleidiol yn datblygu yn y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ15834)

7. **Ann Jones (Dyffryn Clwyd);** Yn ei rôl fel cydlynydd polisïau ar gyfer Gogledd Cymru, pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i ymweld â Dyffryn Clwyd er mwyn tynnu sylw at y modd y caiff polisïau Llywodraeth Cynulliad Cymru eu rhoi ar waith yn y Gogledd. (OAQ15836)

8. **Gareth Jones (Conwy);** Pa asesiad a wnaed o effaith polisïau'r Cynulliad o safbwynt gwella gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. (OAQ15827)

9. **Owen John Thomas (Canol De Cymru);** Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael yn ddiweddar gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch codi proffil Cymru yn

rhyngwladol. (OAQ15837) **W**

10. **Janet Ryder (Gogledd Cymru);** Pa gamau a gymerwyd yn ddiweddar gennych chi, fel y Prif Weinidog, i hyrwyddo delwedd Cymru. (OAQ15828)

11. **Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddatblygiad cyffredinol polisïau iechyd y Cynulliad. (OAQ15831)

12. **Pauline Jarman (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y camau y mae'r Cynulliad wedi eu cymryd i sicrhau bod Cymru gyfan yn elwa o'i bolisïau economaidd a chymdeithasol. (OAQ15838)

13. **Geraint Davies (Rhondda);** Sut y mae'r Prif Weinidog yn monitro'r ffordd y mae safbwyntiau pobl Cymru'n cael eu hystyried wrth ddatblygu polisïau yn y Cynulliad Cenedlaethol. (OAQ15839)

14. **Phil Williams (Gorllewin De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r ymrwymiadau yn y ddogfen strategol Cynllun i Gymru. (OAQ15832)

15. **David Melding (Canol De Cymru);** A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu'r meini prawf a ddefnyddiwyd gan y weinyddiaeth i bennu a fydd offerynnau ysgrifenedig unigol yn gyfarwyddiadau deddfwriaethol neu an-neddfwriaethol. (OAQ15841)